# Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Y Pwyllgor Archwilio (Mehefin 2026)

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

miaa

# Cynnwys


1 Cyflwyniad

2 Negeseuon Allweddol at Sylw'r Pwyllgor Archwilio

Atodiad A: Perfformiad y Contract

Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Atodiad C: Meysydd Allweddol a Chamau Gweithredu i'w Cyflawni

Atodiad D: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg


## Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU)

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU).

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 ac yn tynnu eich sylw at faterion sy'n berthnasol i'ch cyfrifoldebau fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn rhoi crynodeb o'r gweithgarwch Archwilio Mewnol ac yn cydymffurfio â gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU).

Darperir adroddiadau cynhwysfawr sy'n manylu ar ganfyddiadau, argymhellion a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt i'r sefydliad, ac maent wedi'u cynnwys ym mhapurau'r Pwyllgor Archwilio. Hefyd, adroddir ar y sefyllfa gyfunol o safbwynt y camau dilynol o bryd i'w gilydd i'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Mawrth a 31 Mai 2026.

## 3 Crynodeb Gweithredol

| Adolygiadau Archwilio 2025/26 |
| --- |
| Mae'r adolygiadau canlynol wedi'u cwblhau:<br>• Rheolaethau Craidd Rheoli Risg (Sicrwydd Amherthnasol)<br>Mae ein hadolygiad wedi nodi bod y Gwasanaeth wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ers adolygiad Rheoli Risg 2024/25. Fodd bynnag, rydym wedi nodi bod nifer o'r argymhellion yn parhau i fod heb eu gweithredu eto. Felly, mae angen rhagor o waith i wella ac ymgorffori'r trefniadau rheoli risg sydd ar waith yn y Gwasanaeth.<br>Gweler Atodiad C am fanylion y Meysydd Allweddol a'r Camau Gweithredu i'w Cyflawni |

| Adolygiadau Archwilio 2026/27 |
| --- |
| Mae'r adolygiadau canlynol ar y gweill:<br>• Partneriaethau a Chydweithio (Cynllunio) |

## Camau Dilynol

Mae crynodeb o statws presennol yr holl weithgareddau dilynol wedi'i gynnwys fel adroddiad ar wahân.

## Newidiadau i'r Cynllun Archwilio

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ar gyfer unrhyw newidiadau i'r cynllun gwreiddiol ac amlygir hynny ar wahân isod i hwyluso'r broses fonitro.

Nid oes unrhyw gynigion ar hyn o bryd i newid y cynllun archwilio a gymeradwywyd.

## Gwerth Ychwanegol

### Digwyddiadau

Arwain ar draws cenedlaethau (12 Mehefin 2026): Mae arwain ar draws cenedlaethau (generational leadership) yn ymwneud ag arwain mewn ffordd sy'n cydnabod, yn gwerthfawrogi ac yn dwyn ynghyd wahanol safbwyntiau, disgwyliadau ac arddulliau gweithio gwahanol grwpiau oedran yn y gweithlu. Am y tro cyntaf mewn hanes, mae pum cenhedlaeth wahanol yn gweithio yn yr un amgylchedd cyflogaeth. Dewch i ddeall beth sy'n ysgogi pob cenhedlaeth a sut mae disgwyliadau'n wahanol ar draws grwpiau oedran.



miaa

## Atodiad A: Perfformiad y Contract

Mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU) yn nodi: 'Yn sector cyhoeddus y DU, mae'n rhaid i brif swyddog archwilio baratoi casgliad cyffredinol o'r fath o leiaf unwaith y flwyddyn i gefnogi adroddiadau llywodraethiant ehangach, gan ystyried unrhyw rwymedigaethau neu brosesau penodol y sector. Rhaid i'r casgliad cyffredinol hwn gynnwys llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth.' **Isod ceir trosolwg o'r gwaith cyflawni ar gyfer Barn eich Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26:**

| Maes Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol | Cytuno ar Gylch Gorchwyl | Statws | Lefel Sicrwydd | Adroddiad y Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Risg - Rheolaethau Craidd | ✓ | Wedi ei gwblhau | Amherthnasol | Mehefin 2026 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amherthnasol | Rhagfyr 2025 |
| Rheolaethau Ariannol Allweddol | ✓ | Wedi ei gwblhau | Sylweddol | Mawrth 2026 |
| Cynllunio Busnes | ✓ | Wedi ei gwblhau | Sylweddol | Rhagfyr 2025 |
| Rheoli Asedau Offer | ✓ | Wedi ei gwblhau | Cyfyngedig | Medi 2025 |
| Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb | Amh. | Yn ôl yr angen | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Camau Dilynol | | | | |
| Ch1 | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amh. | Mehefin 2025 |
| Ch2 | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amh. | Medi 2025 |
| Ch4 | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amh. | Mehefin 2026 |



miaa

**Mae'r tabl yn crynhoi gwaith cyflawni Barn eich Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2026/27:**

| Maes Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol | Cytuno ar Gylch Gorchwyl | Statws | Lefel Sicrwydd | Adroddiad y Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Risg - Rheolaethau Craidd | | Cyflawni Ch4 | | Mehefin 2027 |
| Partneriaethau a Chydweithio | ✓ | Cynllunio | | Medi 2026 |
| Rheolaethau Ariannol Allweddol | | Cyflawni Ch3 | | Mawrth 2027 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | | Cyflawni Ch3 | | Mawrth 2027 |
| Prosesau Recriwtio a Dyrchafu | | Cyflawni Ch2 | | Rhagfyr 2026 |
| Llywodraethiant AI | | Cyflawni Ch3 | | Mawrth 2027 |
| Camau Dilynol | | | | |
| Ch1 | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amh. | Mehefin 2026 |
| Ch4 | Amh. | Cyflawni Ch4 | | Mehefin 2027 |

## Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Y prif fesur o berfformiad eich archwilydd mewnol yw'r allbynnau sy'n deillio o'r gwaith a wnaed.  Mae'r canlynol yn rhoi gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad i gefnogi'r Pwyllgor wrth asesu perfformiad yr Archwiliad Mewnol.

| Elfen | Adrodd ar Reoleidd-dra | Statws | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol (Cynnydd yn erbyn y Cynllun) | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | Dim materion i'w hadrodd |
| Cyhoeddi Holiadur Boddhad Cleientiaid ar ôl cwblhau pob archwiliad. | Mae pob adroddiad Terfynol yn cynnwys holiadur i gasglu adborth cleientiaid | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion a godwyd y cytunwyd arnynt | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion sy'n cael eu gweithredu | Adroddir ar gamau dilynol ddwywaith y flwyddyn | Gwyrdd | |
| Staff Cymwysedig | Blynyddol | Gwyrdd | Mae gan MIAA weithlu tra chymwys ac amrywiol sy'n cynnwys 65% o staff cymwysedig.  Mae gan yr Uwch Dîm sy'n darparu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i GTAGC gymwysterau CCAB/IIA. |
| Ansawdd | Blynyddol | Gwyrdd | Mae MIAA yn gweithredu systemau i Safonau Ansawdd ISO. Mae MIAA yn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU). |

## Atodiad C: Meysydd Allweddol o'n Gwaith a'r Camau Gweithredu i'w Cyflawni

<table>
<tr><th>Teitl yr Adroddiad</th><th colspan="4">Rheolaethau Craidd Rheoli Risg</th></tr>
<tr><td>Noddwr Gweithredol</td><td colspan="4">Prif Swyddog Tân Cynorthwyol</td></tr>
<tr><td>Lefel Sicrwydd</td><td colspan="4">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td>Amcan</td><td colspan="4">Rhoi sicrwydd bod rheolaethau rheoli risg craidd wedi'u cynllunio'n ddigonol.</td></tr>
<tr><td>Argymhellion</td><td>0 x Critigol</td><td>1 x Uchel</td><td>2 x Canolig</td><td>1 x Isel</td></tr>
<tr><td>Crynodeb</td><td colspan="4">Mae prosesau rheoli risg wedi'u diffinio'n glir yn y Strategaeth Rheoli Risg a gymeradwywyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddol ym mis Mai 2025, yn dilyn ymgynghoriad yn y Pwyllgor Risg Strategol. Mae'r Awdurdod Tân wedi diffinio ei barodrwydd i dderbyn risg ac mae prosesau ar waith i gadw hyn dan adolygiad. Adroddwyd am hyn i'r Panel Gweithredol ym mis Mehefin 2025.<br><br>Dylai anghenion hyfforddi rheoli risg gael eu nodi'n glir ar gyfer yr holl staff ac mae angen egluro trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth.<br><br>Mae angen gwella prosesau ar gyfer sicrhau bod risgiau’n cael eu nodi, eu hadolygu, eu sgorio, eu cofnodi a'u monitro ar draws y sefydliad. Nodwyd nad oedd y Gofrestr Risg Strategol a Gweithredol wedi'i chwblhau'n gyson ar adeg yr adolygiad e.e. sicrwydd ar waith, bylchau mewn rheolaeth/sicrwydd a chynlluniau gweithredu. Yn ogystal, nid oedd diweddariadau cynnydd wedi'u darparu ar gyfer y rhan fwyaf o'r risgiau (canfuwyd bod hyn hefyd yn wir am y risgiau a oedd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Strategol).<br><br>Nid yw trefniadau llywodraethiant ar gyfer adrodd sicrwydd yn erbyn risgiau dirprwyedig gan yr Awdurdod Tân wedi'u hamlinellu'n glir yn y Strategaeth Rheoli Risg. Yn ogystal, mae angen egluro prosesau ar gyfer adrodd yn rheolaidd i'r Awdurdod Tân mewn perthynas â'r prosesau rheoli risg.</td></tr>
<tr><td>Meysydd Allweddol y Cytunwyd i Weithredu Arnynt</td><td colspan="4">• Dylid cwblhau'r gofrestr risg yn llawn a dylid ei defnyddio fel dogfen "fyw" weithredol. Mae'n hanfodol bod pob maes o fewn y gofrestr risg wedi'i gwblhau'n llawn ac yn adlewyrchu'r statws</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | cyfredol mewn perthynas â diweddariadau cynnydd. Argymhellir hefyd y dylai fod dyddiad cau penodol ar gyfer pob cam gweithredu. Dylid diweddaru'r gofrestr risg i adlewyrchu'r parodrwydd i dderbyn risg y cytunwyd arno ar gyfer pob risg. Yn ogystal, dylai'r gofrestr risg fod yn adlewyrchu adolygiadau risg rheolaidd a dylid cofnodi diweddariadau cynnydd i liniaru'r risgiau a nodwyd. Dylai'r Pwyllgor Risg Strategol fonitro cydymffurfiaeth adolygiadau risg rheolaidd gan y Perchnogion Risg. Dylid uwchgyfeirio unrhyw broblemau mewn perthynas â diffyg cydymffurfio, gan gynnwys diweddariadau cynnydd hwyr ar risgiau, i Uwch Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth Dylid cynnal adolygiad o risgiau Adrannol yn rheolaidd fel rhan o gyfarfodydd 1 i 1 rhwng Uwch Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth a'r Perchnogion Risg. Dylid cadw tystiolaeth o'r adolygiad hwn. (Risg Uchel)<br><br>• Y Pwyllgor Risg Strategol - Dylai nodiadau'r cyfarfod adlewyrchu'r trafodaethau a gynhaliwyd i gadarnhau bod risgiau'n cael eu herio a'u craffu'n briodol. Dylid tynnu sylw at y pwyntiau yn nodiadau'r cyfarfod lle nad yw cofrestrau risg wedi'u cwblhau'n llawn a lle mae bylchau mewn perthynas â diweddariadau cynnydd.<br><br>Uwch Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth - Dylai'r Gwasanaeth sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd yr Uwch Dîm Arweinyddol yn adlewyrchu cynnydd mewn materion a godwyd gan y Pwyllgor Risg Strategol e.e. risgiau lle nad yw diweddariadau cynnydd a chamau a gymerwyd i fynd i'r afael â risgiau wedi'u darparu. Dylai'r cofnodion fanylu ar bwyntiau gweithredu ar gyfer perchnogion risg unigol wrth gynnal eu cofrestrau risg. Dylai perchnogion risg fod yn gyfrifol am eu meysydd risg. Dylai'r Gwasanaeth ystyried bod aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddol yn cadeirio'r Pwyllgor Risg Strategol.<br><br>ATA - Dylid rhoi sicrwydd i'r Awdurdod Tân mewn perthynas â rheoli risg yn rheolaidd. (Risg Ganolig)<br><br>• Dylai'r Gwasanaeth sicrhau bod y Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi wedi'i gynnwys yn y Strategaeth Rheoli Risg. Dylid cytuno ar y trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth hyfforddiant hefyd (ar gyfer pob lefel). (Risg Ganolig)<br><br>• Dylid gwella'r Strategaeth Rheoli Risg i gynnwys gofynion hyfforddi a chyfrifoldeb Gweithredol am risg. (Risg Isel) |

## Atodiad D: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| Uchel | Mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y system, ac mae'r rheolaethau'n cael eu gweithredu'n gyson ym mhob maes a adolygwyd. |
| Sylweddol | Mae system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y system, ac mae'r rheolaethau'n cael eu gweithredu'n gyson ar y cyfan. |
| Cymedrol | Mae system ddigonol o reolaeth fewnol; fodd bynnag, mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran cynllunio a/neu weithredu rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y system. |
| Cyfyngedig | Mae'r system o reolaeth fewnol dan fygythiad gan fod gwendidau o ran cynllunio a/neu weithredu mesurau rheolaeth yn anghyson yn peryglu cyflawni amcanion y system. |
| Dim | Mae system annigonol o reolaeth fewnol gan fod gwendidau o ran rheolaeth a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau wedi, neu fe allai, arwain at fethu â chyflawni amcanion y system. |

| Sgôr Risg | Rhesymeg Asesu |
|---|---|
| Critigol | Gwendid rheoli a allai gael effaith sylweddol nid yn unig ar amcanion y system, swyddogaeth neu broses ond hefyd ar gyflawni amcanion y sefydliad mewn perthynas â:<br>• defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau<br>• diogelu asedau<br>• paratoi gwybodaeth ariannol a gweithredol ddibynadwy<br>• cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. |
| Uchel | Gwendid rheoli sydd wedi neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion allweddol y system, y swyddogaeth neu'r broses. Nid yw'r gwendid hwn, er ei fod yn cael effaith fawr o ran y system, swyddogaeth neu broses, yn cael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. |
| Canolig | Gwendid rheoli:<br>• sy'n cael effaith fach ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses;<br>• sydd wedi golygu bod y system, swyddogaeth neu broses yn agored i risg allweddol, ond mae'r tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd yn isel. |
| Isel | Gwendid rheoli nad yw'n effeithio ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses; fodd bynnag, byddai gweithredu'r argymhelliad yn gwella rheolaeth gyffredinol. |



miaa

## Cyfyngiadau

Dim ond y materion a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol yw’r rhai a godir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gallai fod angen eu gwneud. Er bod pob gofal wedi'i gymryd i sicrhau bod yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn mor gywir â phosibl, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd a'r ddogfennaeth a adolygwyd, ni ellir rhoi gwarant gyflawn o ran y cyngor a'r wybodaeth a gynhwysir yma. Nid yw ein gwaith yn rhoi sicrwydd llwyr nad oes gwallau, colled na thwyll materol yn bodoli.

Mae'r cyfrifoldeb dros system gadarn o reolaethau mewnol ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall yn parhau i fod yn nwylo’r rheolwyr ac ni ddylid dibynnu ar waith a gyflawnir gan archwiliad mewnol i nodi'r holl gryfderau a gwendidau mewn rheolaethau mewnol, na dibynnu arno i nodi pob amgylchiad o dwyll neu afreoleidd-dra. Mae’n bwysig bod rheolwyr yn gweithredu ein hargymhellion yn effeithiol ac yn amserol er mwyn cynnal system reoli fewnol ddibynadwy.

Mae adroddiadau a baratowyd gan MIAA yn cael eu paratoi at eich defnydd chi yn unig ac nid yw MIAA na'r archwilwyr yn cymryd cyfrifoldeb ar ran unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog yn rhinwedd eu swyddogaeth unigol. Ni dderbynnir atebolrwydd i unrhyw drydydd parti gan nad yw’r adroddiad wedi’i baratoi ar gyfer, ac nid yw wedi’i fwriadu ar gyfer, unrhyw ddiben arall ac ni fydd gan berson nad yw’n barti i’r cytundeb ar gyfer darparu Archwiliad Mewnol unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999.

**Anne-marie Harrop**

Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Ffôn: 07920 150313

E-bost: Anne-marie.harrop@miaa.nhs.uk

**Angharad Ellis**

Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Ffôn: 07469 378328

E-bost: Ann.ellis@miaa.nhs.uk

miaa